O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1989 (Cy. 220)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Coryton, Caerdydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *15 Awst 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafford Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafffordd") a Chefnffordd Caerdydd i Langurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Awst 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Coryton, Caerdydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn neu ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 15 Awst 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darnau hynny, ac eithrio cerbyd esempt.

**4**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 1.98 metr neu'n fwy ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, na pheri na chaniatáu i gerbyd o'r fath fynd ar hyd y darnau hynny.

**5**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 50 milltir yr awr ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar gyflymder o'r fath ar hyd y darnau hynny.

**6** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar gyflymder o'r fath ar hyd y darnau hynny.

**7**. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**8.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 4 Awst 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

# YR ATODLENNI

## Darnau o Drafffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 yng nghyffiniau Cyffordd 32, Coryton yn Ninas Sir Caerdydd.

## ATODLEN 1

### Terfynau'r gwaharddiad ar bob cerbyd

(i) Y darn hwnnw o gerbytffordd a slipffordd ymadael y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt tua 1100 metr i'r gorllewin o flaen trwyn slipffordd ymadael Cyffordd 32 hyd at bwynt 300 metr i'r dwyrain o'r trwyn hwnnw.

(ii) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno'r gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o system gylchu Coryton hyd at bwynt lle mae'n uno a'r gefnffordd.

## ATODLEN 2

### Terfynau'r gwaharddiad ar gerbydau mawr sydd â'u lled yn 1.98 metr neu'n fwy

Y darn hwnnw o'r draffordd a'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1100 metr i'r gorllewin o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 32, rhan o system gylchu Coryton ac ar hyd y slipffordd ymuno tua'r gogledd hyd at y pwynt lle mae'n uno â'r gefnffordd.

## ATODLEN 3

### Cwmpas y Terfyn Cyflymder 50 mya

(i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt tua 1900 metr i'r gorllewin o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 32 hyd at bwynt 330 metr i'r dwyrain o'r trwyn hwnnw, ac yn ymestyn hyd at bwynt 130 metr i'r dwyrain o ddechrau'r trwyn hwnnw ar y slipffordd ymadael tua'r dwyrain.

(ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ddiwedd trwyn y slipffordd ymuno tua'r gogledd hyd at bwynt 295 metr i'r gogledd-orllewin o ddiwedd y trwyn hwnnw.

Gweithredir y cyfyngiadau ar bob un o'r lonydd.

## ATODLEN 4

### Cwmpas y Terfyn Cyflymder 30 mya

(i) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael y drafffordd tua'r dwyrain, sy'n ymestyn o bwynt 130 metr i'r dwyrain o fan cychwyn y slipffordd ymadael yng Nghyffordd 32 hyd at bwynt 310 metr i'r dwyrain o flaen trwyn y slipffordd ymadael.

(ii) Y darn hwnnw o System Gylchu Coryton sy'n ymestyn o bwynt ar flaen trwyn slipffordd ymuno'r drafffordd tua'r gorllewin hyd at bwynt 50 metr i'r gogledd-ddwyrain o fan cychwyn slipffordd ymuno'r gefnffordd tua'r gogledd.

(iii) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno'r gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o fan cychwyn y slipffordd ar system gylchu Coryton hyd at y pwynt lle mae'n uno â'r brif gerbytffordd tua'r gogledd.